**Syniadau ar gyfer gweithgareddau**

**Gweithgaredd 1**

Gellid defnyddio'r adnodd i archwilio'r cysyniad o ffynonellau hanesyddol. Gofynnwch i'r dysgwyr enwi'r holl wahanol fathau o ffynonellau hanesyddol y gallan nhw feddwl amdanyn nhw e.e., arteffactau, ffotograffau, papurau newydd ac ati. Os nad yw 'hanes llafar' yn dod i'r amlwg, cyflwynwch ef i'r grŵp.

Gallwch archwilio'r cysyniad o ffynonellau 'cynradd' ac 'eilaidd' drwy gymharu atebion dysgwyr â bywgraffiad Dorothy Fleming a'r **daflen waith** 'Dorothy Fleming: Bywyd yn Fienna, Awstria ym 1938', sydd ill dau yn enghreifftiau o ffynonellau eilaidd. Beth yw manteision ffynonellau cynradd ac eilaidd? Beth yw eu hanfanteision?

**Cwestiynau defnyddiol eraill:**
- Pa un o'r ffynonellau hanesyddol hyn sydd fwyaf pwerus a pham?
- Ydy gwahanol fathau o ffynonellau'n gallu dweud gwahanol bethau wrthym am ddigwyddiadau hanesyddol? Sut?
- Pa fanteision sydd gan 'hanes llafar' dros ffynonellau eraill?
- Pam y gallai hanes llafar fod yn arbennig o bwysig wrth ddysgu am yr Holocost?

**Gweithgaredd 2**

Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar hanes llafar fel ffynhonnell. Rhannwch y dysgwyr yn barau a gofynnwch iddyn nhw baratoi eu cyfweliadau hanes llafar eu hunain, gydag un yn gofyn cwestiynau i'r llall. Ni ddylen nhw ddewis mwy na phum cwestiwn, a dylai'r testun fod yn syml e.e. beth gawson nhw i frecwast; beth ddysgon nhw' wythnos diwethaf; y ffilm olaf iddyn nhw ei gweld. Gofynnwch iddyn nhw gofnodi beth ddwedodd y llall, ac yna newid rolau.

Anogwch y dysgwyr i rannu eu nodiadau gyda'r dosbarth – beth ddywedodd eu partneriaid? Pa wybodaeth oedd yn arwyddocaol iddyn nhw? Sut gallai eu hatebion fod wedi bod yn wahanol pe bai rhywun wedi gofyn iddyn nhw ysgrifennu eu profiad eu hunain, yn hytrach na'i ddweud wrth rywun arall?

**Gweithgaredd 3**

Gwrandewch ar Glip Sain 1: Dorothy Fleming – Plentyndod cynnar a darllenwch y bywgraffiad byr. Gallai dysgwyr fyfyrio ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng bywyd Dorothy Fleming yn Fienna, Awstria yn y 1930au cyn yr Ail Ryfel Byd a'u bywydau nhw yng Nghymru heddiw. Cofnodwch y rhain naill ai ar y bwrdd gwyn neu mewn grwpiau llai o dan y penawdau 'Nodweddion Tebyg' a 'Nodweddion Gwahanol'. Er enghraifft:

| **Nodweddion Tebyg** | **Nodweddion Gwahanol** |
|---|---|
| Mynd I nofio | Mae'r ysgol yn llym iawn! |

## Gweithgaredd 4

Gwrandewch ar Glip Sain 2: Dorothy Fleming – Bywyd ar ôl yr Anschluss a darllenwch y diffiniad o Anschluss gyda'r grŵp. Gallech hefyd ddangos rîl newyddion y digwyddiad gan yr Associated Press.

Trafodwch rai o oblygiadau hyn i bobl Iddewig fel Dorothy Fleming a oedd yn byw yn Awstria ar y pryd. Mae'r rhain hefyd wedi'u cynnwys ar y **daflen waith myfyrwyr** 'Bywyd yn Fienna, Awstria ym 1938', y gall dysgwyr wedyn ei llenwi.

## Gweithgaredd 5 – Trafodaeth ddosbarth

Beth allai Iddewon yr Almaen ac Awstria ei wneud am eu sefyllfa? Gallech archwilio pa opsiynau eraill a allai fod gan bobl i newid eu sefyllfaoedd e.e. protestio, gwrthod ac ati, ac a yw'r dysgwyr yn meddwl y byddai'r rhain wedi gweithio bryd hynny. Gallech edrych ar fathau o brotestio heddiw a thrafod eu heffeithiolrwydd.

I'r rhan fwyaf o Iddewon yr Almaen ac Awstria, ceisio gadael y wlad oedd yr unig opsiwn. Pa deimladau y gallai fod ganddyn nhw am wneud hyn?